



Croeso  
Cymru

Llysgenhadon Twristiaeth  
Astudiaeth Achos: **Wrecsam a  
Gogledd Ddwyrain Cymru**



---

Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

# Astudiaeth Achos Llysgenhadon Twristiaeth: Wrecsam a Gogledd Ddwyrain Cymru

## Trosolwg

Sawl Llysgennad/Cyfarchwr?	92 hyd yn hyn
Pwy ydynt?	Yn bennaf, maen nhw'n berchnogion a gweithwyr cyflogedig mewn busnesau twristiaeth, sy'n cynnwys atyniadau i ymwelwyr, gwestai a busnesau gwely a brecwast
Pa ardal maen nhw'n ymwneud â hi?	Wrecsam a Gogledd Ddwyrain Cymru (sy'n cynnwys Sir y Fflint a Sir Ddinbych)
Pa hyfforddiant?	WorldHost a 'Naws am Le'
Pryd sefydlwyd y cynllun?	Hydref 2013
Ydy e'n dal i fynd?	Ydy



**NORTH  
EAST  
WALES**  
Ambassador

# Astudiaeth Achos Llysgenhadon Twristiaeth: Wrecsam a Gogledd Ddwyrain Cymru

---

## Disgrifiad o'r rhaglen

Ar gefndir y nifer gynyddol o ymwelwyr ledled rhanbarth Gogledd Ddwyrain Cymru, aeth y Bartneriaeth Cyrchfan leol ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam ati yn hwyr yn 2013 i ffurfio menter i gryfhau'r cysylltiadau rhwng rhanddeiliaid sy'n gweithio yn y diwydiant twristiaeth.

Mae cynllun Llysgenhadon Twristiaeth Wrecsam yn cynnig y cyfle i fusnesau ledled y Fwrdeistref Sirol fynd i ddigwyddiadau hyfforddi, teithiau dysgu a digwyddiadau arbennig, yn rhan o raglen barhaus sydd wedi'i llunio i gynnal safonau uchel i ymwelwyr, ond hefyd i sefydlu ymrwymiad wedi'i fuddsoddi gan fusnesau sy'n ymwneud â maes twristiaeth a chreu cydweithrediad da rhyngddynt hefyd.

Er bod y cynllun yn weddol newydd, mae wedi ymgysylltu'n barod â mwy na 90 o Lysgenhadon ac mae'n parhau i gynnwys mwy o fusnesau, yn ogystal ag ehangu ar draws rhanbarth Gogledd Ddwyrain Cymru – gan gynnwys Wrecsam yn ogystal â Sir y Fflint a Sir Ddinbych.

## Pam y sefydlwyd hwn?

Sefydlwyd y cynllun Partneriaeth Wrecsam fel Cyrchfan gyda'r brif nod o bennu a darparu'r gefnogaeth yr oedd busnesau twristiaeth eu hangen i sicrhau bod ymwelwyr yn cael profiad cofiadwy.

I sicrhau y bydd y gefnogaeth yn cael ei ffurfioli mewn strwythur y byddai'r holl rhanddeiliaid yn eu hadnabod, dewiswyd y syniad o gynllun Llysgenhadon fel mecanwaith i greu a chryfhau partneriaethau rhwng busnesau twristiaeth a'r awdurdod lleol.

Mae'r cynllun yn anelu hefyd at annog busnesau twristiaeth i ddysgu rhagor am eu hardal, i rwydweithio gyda busnesau eraill ac i ddod i wybod mwy am yr hyn sy'n digwydd yn rhanbarth Gogledd Ddwyrain Cymru.

## Pryd gychwynwyd hwn?

Cychwynwyd y cynllun cyfredol ym mis Hydref 2013.

## Syniad pwy ydoedd?

Cychwynwyd a datblygwyd y cynllun gan y Bartneriaeth Wrecsam fel Cyrchfan.

# Astudiaeth Achos Llysgenhadon Twristiaeth: Wrecsam a Gogledd Ddwyrain Cymru

## Sut y cafodd ei ddatblygu?

Cyn i'r cynllun Llysgenhadon gael ei lansio, cynhaliodd tîm Wrecsam fel Cyrchfan amrywiol ymgynghoriadau gyda busnesau twristiaeth am y math o gefnogaeth y byddent ei hangen, yn eu barn hwy, i wasanaethu eu hymwelwyr.

Hefyd bu'r tîm yn ymchwilio'r cynlluniau Llysgenhadon eraill ledled Cymru a rhannau eraill o'r DU a bennodd ffyrdd posibl o annog ymgysylltiad a rhwydweithio; gan edrych ar yr elfennau allweddol i ystyried eu gweithredu ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam.



## Agwedd

### Sut mae pobl yn dod yn rhan o'r rhaglen Llysgenhadon?

Gwahoddir busnesau'n uniongyrchol i gymryd rhan yn y cynllun Llysgenhadon. Anogir y rhai sydd â diddordeb i gysylltu â Wrecsam fel Cyrchfan yn uniongyrchol i nodi eu diddordeb ac i glywed am ddigwyddiadau yn y dyfodol.

Yr agwedd gyffredinol tuag at y cynllun yw creu cytundeb rhwng busnesau twristiaeth a'r awdurdod lleol, sy'n meithrin manteision i'r ddwy ochr. Mae mynediad i'r cynllun yn rhad ac am ddim; ond mae wedi'i seilio ar fabwysiadu pum prif ymrwymiad gan yr egin-fusnesau Llysgenhadon:

- Mynychu (neu anfon cynrychiolwyr i) o leiaf bum digwyddiad clwb busnes bob blwyddyn
- Dychwelyd eich data STEAM yn brydlon (os yw hynny'n berthnasol)
- Ymrwymo i ganiatáu i staff gyfranogi yn yr Hyfforddiant WorldHost a'r cyrsiau hyfforddi 'Naws am Le' sydd ar gael yn rhad ac am ddim
- Gwneud un newid i'w bwydlen gan ganfod saig (nid cynhwysyn) sy'n dod yn gyfan gwbl o Ogledd Ddwyrain Cymru – ac yna hyrwyddo'r saig/cynnyrch yma. Os ydynt yn gwneud hyn yn barod, grêt – ond rhowch wybod i bawb!

# Astudiaeth Achos Llysgenhadon Twristiaeth: Wrecsam a Gogledd Ddwyrain Cymru

- Traws-hyrwyddo'r ardal ehangach yn frwd i ymwelwyr a defnyddio brand Gogledd Ddwyrain Cymru (h.y. drwy ddeunydd gwybodaeth sy'n cael ei chadw'n dda, ar wefan y busnes, porthiant y cyfryngau cymdeithasol).

O wneud yr ymrwymiadau uchod, mae hawl i fusnesau Llysgenhadon dderbyn amrywiaeth o fanteision a ddarperir gan dîm Wrecsam fel Cyrchfan – gan gynnwys mynediad i ddigwyddiadau arbennig, sticeri ac arwyddion rhad ac am ddim, cyfleoedd i rwydweithio ac hefyd sylw rhad ac am ddim yn y cyfryngau drwy'r cyfryngau digidol.

## Pwy yw'r bobl yma?

Mae Llysgenhadon yn cynnwys busnesau twristiaeth (darparwyr llety, bwytai ac atyniadau i dwristiaid) yn hytrach nag unigolion.

## Digwyddiadau

Un o amodau cwblhau'r pum prif ymrwymiad yw bod Llysgenhadon yn cael mynd i nifer o ddigwyddiadau. Mae'r rhain yn cynnwys:

**Teithiau dysgu** – Cyfle i ymweld ag atyniadau i dwristiaid dethol yn y fwrdeistref sirol ac mewn rhannau eraill o'r DU yn rhan o ddiwrnod cynefino yn ogystal â rhwydweithio gyda busnesau Llysgenhadon eraill.

**O dan y Bwâu** – Digwyddiad blynyddol sy'n cynnwys 'goleuo' Traphont Ddŵr Pontcysyllte. Achlysur arbennig gyda bwyd a cherddoriaeth.

**Gwobrau Llysgenhadon Twristiaeth** – Gwahoddir busnesau Llysgenhadon i ddigwyddiad pwysig bob mis Hydref a chystadlu mewn amrywiaeth o gategoriâu i ennill gwobr glodfawr.

**Her y Byrger yn Wrecsam** – Digwyddiad llwyddiannus a gafwyd yn fuan yn 2015. Gwahoddwyd busnesau i gystadlu yn erbyn ei gilydd i greu'r byrger gorau yn Wrecsam.



# Astudiaeth Achos Llysgenhadon Twristiaeth: Wrecsam a Gogledd Ddwyrain Cymru

## Hyfforddiant

Un o'r amodau ar gyfer mynediad, mae gofyn i fusnesau Llysgenhadon ymrwmo eu staff i ddigwyddiadau a gweithdai hyfforddi. Mae'r diwrnodau hyfforddi yma'n cynnwys WorldHost a 'Naws am Le'. Bwriad y sesiynau hyfforddi yw rhoi cyfle i Lysgenhadon ddysgu sgiliau newydd a rhwydweithio gyda busnesau eraill.

## Gweithgareddau

Yn ogystal â digwyddiadau a gweithdai hyfforddi i Lysgenhadon, mae'r cynllun hefyd yn cynnal cyfarfodydd diweddarau yn rheolaidd mewn gwahanol leoliadau ar draws y Fwrdeistref Sirol. Mae'r rhain yn tueddu cadw i ffwrdd oddi wrth safleoedd cynhadledd traddodiadol – a bod mewn lleoliadau unigryw a rhyfedd sy'n ysbrydoli.

Wrth ymuno â'r cynllun, gwahoddir bob Llysgennad i gael ei fusnes ar fideo byr, a ddarperir yn rhad ac am ddim gan Wrecsam fel Cyrchfan. Gall y busnes Llysgennad ddefnyddio'r fideo yma'n rhad ac am ddim i hybu eu busnes. Hyrwyddir yr holl ddigwyddiadau a gweithgareddau ar y cyfryngau cymdeithasol hefyd – gyda bron i 3,500 o ddilynwyr ar Twitter i'w darllen.



## Heddiw a Thu Hwnt

### Y gwaith hyd yn hyn

Hyd yn hyn, mae'r cynllun wedi parhau i wahodd busnesau Llysgenhadon presennol i gymryd rhan mewn gweithgareddau hyfforddi a digwyddiadau eraill, yn ogystal â gwahodd busnesau newydd i gymryd rhan.

Mae'r cyfryngau digidol yn elfen allweddol hefyd o'r ffordd mae cynllun Llysgenhadon Twristiaeth Wrecsam yn cael ei hybu'n fewnol (Llysgenhadon newydd a rhai hirsefydlog) ac yn allanol (cyrchfannau eraill). Mae'r cynllun yn rhoi llawer o bwyslais yn arbennig ar godi ymwybyddiaeth drwy ddulliau digidol, megis hyrwyddo drwy Twitter a Facebook, yn ogystal â chynhyrchu fideos arloesol. Mae llawer o'u prif ddigwyddiadau a rhaglenni llwyddiannus wedi eu rhestru ar ffurf fideo a gallwch eu gwyllo ar eu sianel YouTube.

### Canlyniadau

Mae 92 o Lysgenhadon wedi cael hyfforddiant llawn, a disgwylir i'r ffigur hwn dyfu wrth i fwy o Lysgenhadon gael eu hannog i gymryd rhan ledled rhanbarth Gogledd Ddwyrain Cymru.

### Cynlluniau a disgwyliadau ar gyfer y dyfodol

Mae'r model a ddefnyddir yng nghynllun Llysgenhadon Twristiaeth Wrecsam yn cael ei alw'n ffordd arloesol o greu dialog cynhyrchiol gyda busnesau twristiaeth, yn arbennig o fewn y fframwaith o Reoli Cyrchfannau'n effeithiol.

Prif nod Wrecsam fel Cyrchfan yn awr ar gyfer rheoli'r cynllun yw un o atgyfnerthu; adeiladu ar ei lwyddiannau a'r sylfeini a osodwyd drwy gydol y flwyddyn gyntaf ers ei gychwyniad. Yn ogystal â gwahodd busnesau newydd i gymryd rhan a pharhau'r rhaglen gyfredol o weithdai a digwyddiadau hyfforddi i Lysgenhadon presennol, mae adolygiad parhaus ar waith i ganfod meysydd y gellir eu gwella – gan sicrhau bod y gefnogaeth a ddarperir yn dal i fod yn berthnasol a digonol. Disgwylir i'r cynllun gael ei ail lansio rhwng canol a diwedd 2015.

Bydd cynllun Llysgenhadon Twristiaeth Wrecsam wedi'i amsugno i mewn i'r cynllun Llysgenhadon Twristiaeth Gogledd Ddwyrain Cymru ehangach ym misoedd olaf 2015. Mae hwn yn cynnwys bwrdeistrefi sirol cyfagos Sir y Fflint a Sir Ddinbych hefyd. Ar hyn o bryd mae cynlluniau Llysgenhadon wrthi'n cael eu datblygu yn y ddwy ardal yma a byddent yn cael eu modelu gyda'r un nodweddion â'r cynllun yn Wrecsam.